**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**17 Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau – Bargen Twf Canolbarth Cymru |

## 1 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg byr o'r cynnydd, y prif weithgareddau a'r camau nesaf yn ymwneud â Bargen Twf Canolbarth Cymru.

## 2 Penderfyniad(au) a Geisir

2.1 Dim.

## 3 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Y prif ffocws dros y misoedd nesaf bydd ar ddod a'r achosion busnes y prosiectau ymlaen, parhau i wneud cynnydd ar y rhaglenni ac adolygu a diweddaru sefyllfa gyffredinol y Portffolio. Bydd hyn yn allweddol i gael cytundeb gan y Llywodraeth i ymrwymo i ryddhau cyllid y Cynllun Twf yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 4 Achos Busnes Portffolio Strategol

4.1 Mae'r **Achos Busnes Portffolio Strategol v2.0** (SPBC v2) wedi ei ddrafftio ac yn cael ei ymgynghori arno yn bresennol. Cafodd drafft ei roi gerbron Grŵp Rheoli TCC ar 13 Ionawr a gweithdy pellach wedyn ar 10fed o Chwefror gydag aelodau'r Grŵp Rheoli, Llwyodraeth Prydain, Llywodraeth Cymru, Grŵp Cynghori Economaidd ac arweinyddion polisi Llywodraeth i edrych ar y newidiadau manwl a derbyn adborth. Bydd adborth ar lafar yn cael ei ddarparu o'r gweithdy yno.

4.2 Mae dogfennau atodol wedi eu diweddaru, gan gynnwys y **Strategaeth Buddsoddiad Sector Breifat** a fydd hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach gydag aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd i ddarparu mewnbwn o'r sector breifat.

4.3 Unwaith y bydd pawb wedi cael mewnbwn i mewn i'r ddogfennau, bydd fersiynau terfynol yn cael eu rhoi gerbron Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer cadarnhau yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2023. Bydd y dogfennau wedyn yn cael eu hanfon i'r ddwy Lywodraeth i'w ystyried yn y Bwrdd Bargeinion Twf a Dinesig Cymru ar 29 o Fawrth. Bydd hwn yn edrych i ryddhau yr arian drwy Lythyr Cynnig Grant.

## 5 Adolygiad Sicrwydd Portffolio:

5.1 Mae Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PÂR) wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos 14-17 Chwefror. Diben yr adolygiad, sy'n cynnwys tîm adolygu allanol ac annibynnol, yw rhoi sicrwydd inni ac i'r ddwy Lywodraeth fod gennym bopeth yn ei le i fwrw ymlaen â cham cyflawni'r Fargen Twf. Bydd adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Uwch Berchnogion Cyfrifol ac yna'n bwydo'n ôl i Fwrdd TCC.

## 6 Cynnydd Rhaglenni

6.1 Digidol – mae Bwrdd y Rhaglen yn bwrw ymlaen â phrosiectau a nodwyd yn flaenorol. Yn dilyn ymarfer caffael, mae Spirit Public Sector wedi cael y contract i ddarparu cymorth arbenigol pellach.

Tir ac Eiddo - mae'r contract gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ar gyfer gwaith ymgynghori i fynd â gwaith y rhaglen flaenorol ymlaen i'r cam nesaf bellach yn ei le. Yn dilyn ymarfer caffael, dyfarnwyd y contract ar gyfer yr ymgynghoriaeth honno i Savills.

## 7 Datblygiad Prosiectau

7.1 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda Noddwyr Prosiectau ynghylch dyddiadau cyflwyno eu Hachosion Amlinellol Strategol neu Achosion Busnes Amlinellol ac yn cynllunio asesiadau o amgylch dyddiadau'r Grŵp Rheoli a Bwrdd TCC. Dylai'r Achosion Busnes ddod i law rhwng mis Mawrth a mis Medi.

7.2 Cynhaliwyd dau Weithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid lle y cyflwynodd noddwyr prosiectau eu cynigion i aelodau Bwrdd TCC a'r Grŵp Cynghori Economaidd. Rhoddwyd cyflwyniadau hefyd ar y Rhaglenni.

## 8 Camau Nesaf

8.1 Weler **Atodiad 1** ar gyfer y Llinell Amser diweddaraf.

## 9 Goblygiadau Cyfreithiol

9.1 Dim

## 10 Goblygiadau Adnoddau Dynol

10.1 Dim

## 11 Goblygiadau Ariannol

11.1 Dim

## 12 Atodiadau

- Atodiad 1 – Llinell Amser Camau Nesaf Bargen Dwf